

Canllaw i Berson Ifanc sy'n Gadael Gofal

Mae'r wybodaeth isod ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Mae gadael gofal yn golygu bod yn annibynnol a gwneud eich dewisiadau eich hunan ynghylch eich dyfodol. Gallai olygu paratoi i ddechrau gweithio, cael gwybodaeth ynghylch hyfforddiant a chanfod rhywle i fyw.

Pan fyddwch chi'n cyrraedd 18 oed, byddwch yn ôl y gyfraith yn dod yn oedolyn a ni fyddwch yn cael eich ystyried yn blentyn sy'n derbyn gofal, byddwch yn cael eich ystyried yn berson sy'n gadael gofal a bydd angen gwneud cynlluniau gyda chi.

Cyn eich pen-blwydd yn 18 oed, bydd trafodaethau yn digwydd rhyngoch chi ac unrhyw weithwyr proffesiynol sy'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad i chi a cynllun llwybr.

Beth yw Cynllun Llwybr?

Mae cynllun llwybr yn dweud beth yw eich dymuniad ar gyfer eich dyfodol, a byddwn yn cofnodi'r hyn rydych eisiau ei wneud a sut y byddwn yn cydweithio i'ch helpu chi i lwyddo. Mae'n cynnwys pethau fel:-

- Addysg, hyfforddiant, cyflogaeth a chynllunio gyrfa
- Iechyd a datblygiad
- Cyswllt gyda rhieni, teulu ehangach a ffrindiau
- Cefnogaeth ariannol

Byddwn hefyd yn meddwl pa arian y gallech fod ei angen ar gyfer pethau fel:-

- Teithio
- Offer neu bethau eraill ar gyfer ysgol neu goleg
- Dillad ar gyfer cyfweiliadau a gwaith
- Cyswllt gyda'ch teulu neu'ch ffrindiau
- Hobïau a gwyliau

Canllaw Person Ifanc i Gadael Gofal

- Costau ar gyfer unrhyw anghenion arbennig
- Cwnsela
- Anghenion diwylliannol neu grefyddol

Efallai na chewch arian ar gyfer yr holl bethau hyn ac efallai y byddwch angen pethau eraill nad ydynt ar y rhestr hon. Byddwn yn gweithio gyda chi i gael y ffordd gorau i'ch helpu a chytuno gyda chi beth allwn ei wneud. Bydd hyn yn cael ei ysgrifennu yn eich cynllun llwybr.

Pa mor aml mae'r cynllun yn cael ei adolygu?

Bob chwe mis, bydd cyfarfod adolygu yn cael ei gynnal i edrych ar y cynllun a gweld os yw'n cynnig y gefnogaeth yr ydych eisiau ac angen arnoch.

Sut fydda i'n cael fy arian?

Byddwn yn eich helpu i agor cyfrif banc ac yn eich dysgu sut i'w redeg. Mae'n bwysig i chi ddysgu sut i reoli'ch arian a gwneud iddo ymestyn i dalu am y pethau y byddwch eu hangen. Mewn rhai achosion byddwn yn talu arian parod i chi, ond rydym eisiau eich helpu i gael y sgiliau rydych eu hangen i reoli hynny eich hunan.

Beth yw cefnogaeth bersonol?

Mae cefnogaeth bersonol ynghylch pwy all gynnig help i chi, a sut a phryd y byddwch yn cael yr help y byddwch ei angen. Mae'n golygu gwneud cynlluniau ar gyfer cadw mewn cysylltiad â'r bobl sy'n bwysig i chi ac sydd ag ots amdanoch chi, a gwneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i gysylltu â meddyg, deintydd a chael cymorth mewn argyfwng.

Beth fydd yn digwydd pan fyddai'n 18 oed?

Dylech fod yn dal i dderbyn gofal nes eich bod yn 18 oed oni bai eich bod yn sicr nad ydych eisiau'r math yma o help a chefnogaeth. Pan fyddwch yn 18 mlwydd oed neu'n hŷn byddwch yn dal i fod â chynllun llwybr a'ch ymgynghorydd personol, a bydd Gwasanaethau Addysg a Phlant yn cadw mewn cysylltiad â chi nes eich bod yn 25 mlwydd oed.

Ar ôl 18 oed gallwch hawlio budd-daliadau ac ni fydd y Cyngor yn rhoi'r rhan fwyaf o'ch arian i chi.

Byddwn yn dal i fod eisiau eich helpu mewn ffyrdd y bydd y ddau ohonom yn cytuno yn eu cylch. Os ydych dros 19 oed ac mewn addysg, hyfforddiant neu waith, byddwn yn dal i'ch helpu. Gallai hynny olygu prynu llyfrau, offer neu ddillad, neu helpu gyda theithiau maes, costau teithio, unrhyw ffioedd cofrestru mewn coleg neu ar gyfer arholiad, costau gofal plant neu ffioedd hyfforddiant. Gallwn roi'r math yma o gefnogaeth i chi nes eich bod yn 21 mlwydd oed neu'n hŷn, mae'n dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei gytuno yn eich cynllun llwybr.

Canllaw Person Ifanc i Gadael Gofal

Beth sy'n digwydd pan fyddai'n 21 oed?

Os ydych yn 21 oed ac yn gweithio gyda'ch Ymgynghorydd Personol, byddwch yn parhau i gael cymorth gan eich Ymgynghorydd Personol i weithio tuag at y camau gweithredu a amlinellir yn eich cynllun llwybr.

Os nad ydych yn gweithio gyda'ch Ymgynghorydd Personol, bydd eich achos yn cael ei gau i'r Gwasanaeth Ymgynghori Personol, fodd bynnag gallwch wneud cais am gefnogaeth ar unrhyw adeg hyd at oed 25 oed, hyd yn oed os nad ydych wedi gwneud cais am gymorth gan Ymgynghorydd Personol.

Ailgysylltu â gofal

Os ydych yn berson sy'n gadael gofal ac a fyddai'n hoffi cefnogaeth i fynd i'r afael â mater penodol, cysylltwch â Phorth Gwasanaethau Plant ac Addysg Sir Ddinbych ar 01824 712200 (Dydd Llun – Dydd Iau 9am - 5pm, Dydd Gwener – 9am – 4.30pm) neu drwy anfon e-bost at cfsgateway@denbighshire.gov.uk Bydd y Rheolwr Tîm 14+ yn adolygu eich cais, yn diweddarau eich Cynllun Llwybr i adlewyrchu'r cymorth sydd ei angen a'ch cyfeirio'n ôl at y Gwasanaeth Ymgynghori Personol a fydd yn darparu cymorth.

Allai i fynd i goleg neu brifysgol?

Os byddwch yn mynd i'r brifysgol, cewch arian trwy'r un system o fenthyciadau myfyrwyr ag unrhyw un arall, bydd eich cynllun llwybr yn cael ei ddiweddarau ac yn cynnwys pecyn ariannol unigryw i gynorthwyo gyda ffioedd, llety ac unrhyw anghenion cefnogi eraill a nodir. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod gennych rywle i fyw yn ystod y gwyliau os oes ei angen arnoch.

Beth yw Ymgynghorydd Personol?

Mae Ymgynghorydd Personol yn rhywun sydd yno i'ch helpu i baratoi eich cynllun llwybr. Bydd yn gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn cael yr holl help y byddwch ei angen.

Bydd yn:-

- Rhoi cyngor a chefnogaeth.
- Deall eich anghenion ac yn eich helpu i ysgrifennu'ch cynllun llwybr.
- Gweithio gyda chi i adolygu'ch cynllun llwybr – gallai'ch gobeithion a'ch syniadau newid fel y byddwch yn symud ymlaen, felly bydd angen ei newid i adlewyrchu hynny.
- Siarad gyda'r Cyngor i sicrhau eich bod yn cael yr holl gymorth rydych ei angen, gan gynnwys unrhyw arian dyledus.
- Cadw mewn cysylltiad gyda chi nes eich bod o leiaf 25 mlwydd oed.
- Eich helpu i ganfod lle da i fyw.
- Gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr hyfforddiant a'r gefnogaeth briodol y byddwch ei angen, er mwyn i chi allu meithrin y sgiliau cywir i'ch helpu i fyw'n annibynnol.
- Eich helpu i symud i mewn i'ch lle eich hunain, yn ogystal â'ch helpu i brynu'r

Canllaw Person Ifanc i Gadael Gofal

- pethau sylfaenol a gwneud yn siŵr eich bod yn setlo yn eich cartref newydd.
- Eich helpu i ganfod beth ddylech ei wybod ynghylch y gymuned rydych yn byw ynddi.
 - Eich cynghori beth i wneud mewn argyfwng.
 - Eich helpu i gwyno neu ddatrys unrhyw broblemau y gallai fod gennych gyda Gwasanaethau Addysg a Phlant. Gallai hyn olygu gofyn am eiriolwr i weithio gyda chi hefyd – person sy'n gallu gwneud yn siŵr fod eich cwyn yn cael gwrandawriad a hyd yn oed siarad ar eich rhan pe byddech yn dymuno hynny.

Mae'r ymgynghorydd personol yno ar eich cyfer chi – maent yn gwybod sut y dylai pethau weithioa sut i gael pethau i ddigwydd. Byddant yn rhoi math gwahanol o gymorth i chi na'ch gweithiwr cymdeithasol a gallai gael mwy o gefnogaeth, neu fath arbennig o gefnogaeth i chi, trwy'r Tîm Cefnogi Teulu - yn enwedig fel y byddwch yn setlo i mewn yn eich lle eich hunain. Mae'n bwysig fod gennych berthynas da gyda'ch ymgynghorydd personol. Efallai na fyddwch yn cytuno pob amser, ond dylech deimlo y gallwch gydweithio a siarad gyda'r ymgynghorydd.

Gall a'i gwyno?

Rydym yn gwrandao ar eich safbwyntiau a byddwn bob amser yn ceisio ein gorau, ond ni allwn addo bob amser ei bod hi'n bosibl i chi gael beth ydych eisiau.

Os ydych yn anhapus gyda unrhyw beth mae unrhyw unigolyn sydd wedi gweithio gyda chi wedi'i wneud, mae gennych hawl i wneud cwyn. Gallwch gysylltu â'r Swyddog Cwynion a Oddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol neu gofynnwch i'ch Gweithiwr Cymdeithasol neu eiriolwr i'ch helpu i wneud hyn:-

Rhif rhadffôn: 0800 032 1099

E-bost: ssdcomments@denbighshire.gov.uk

Ysgrifennwch at: Swyddog Cwynion - Tŷ Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, Sir Ddinbych LL18 3DP

Gwefan: www.sirdinbych.gov.uk/eichllais

Gall y wybodaeth hon fod ar gael mewn ieithoedd a/neu fformatau eraill ar gais.